ATODLEN 1

# RHAN II

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL CYFFREDINOL

### Y cymwysterau presennol ar gyfer addysgu disgyblion â nam ar eu clyw

**1.** Ymdrinnir ag unrhyw berson a oedd yn union cyn 1 Medi 1999 yn meddu ar y canlynol —

(a) cymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 14 o Reoliadau 1993; neu

(b) cymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 15 o Reoliadau 1989; neu

(c) cymhwyster a grybwyllir yn rheoliad 15(1) o Reoliadau 1982; neu

(d) cymhwyster cymaradwy a gymeradwyir at ddibenion y rheoliad hwnnw; neu

(e) cymhwyster a grybwyllir yn rheoliad 20(3) o Reoliadau 1959; neu

(f) cymhwyster cyfatebol a gymeradwyir at ddibenion y rheoliad hwnnw,

fel person sy'n meddu ar gymhwyster a gymeradwyir at ddibenion 11.

### Y cymwysterau presennol ar gyfer addysgu disgyblion a nam ar eu golwg

**2.** Ymdrinnir ag unrhyw berson a oedd yn union cyn 1 Medi yn meddu ar y canlynol —

(a) cymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 15 o Reoliadau 1993; neu

(b) cymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 16 o Reoliadau 1989; neu

(c) cymhwyster a grybwyllir yn rheoliad 16(1) o Reoliadau 1982; neu

(d) cymhwyster a gymeradwyir at ddiben y rheoliad hwnnw fel cymhwyster y gellir ei gymharu ag un a grybwyllir felly; neu

(e) cymhwyster ar gyfer addysgu disgyblion dall a oedd, yn union cyn 8 Ebrill 1982, yn bodloni gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliad 15(2) o Reoliadau Disgyblion o Dan Anfantais ac Ysgolion Arbennig 1959(**1**),

fel person sy'n meddu ar gymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 12.

### Parhau i gyflogi athrawon presennol disgyblion y mae ganddynt nam ar eu clyw neu eu golwg neu'r ddau

**3.** Caiff person sydd wedi bodloni gofynion rheoliad 18 o Reoliadau 1982 ar gyfer cyflogaeth mewn ysgol arbennig fel athro dosbarth o ddisgyblion a oedd yn fyddar neu'n rhannol fyddar ac yn ddall gael ei gyflogi mewn ysgol fel athro dosbarth o ddisgyblion y mae ganddynt nam ar eu clyw a'u golwg, er nad yw'n athro cymwysedig at ddibenion rheoliad 13(1).

### Cyfnod cyflogi myfyrwyr-athrawon

**4.** Bydd i gymeradwyaeth at ddibenion paragraff 2(2)(a) o Atodlen 3 i Reoliadau 1989 am gyfnod sy'n fwy na dwy flynedd ac y gall person gael ei gyflogi fel myfyriwr-athro ynddo effaith fel petai wedi'i rhoi at ddibenion 2(2)(a) o Atodlen 2.

(**1**) O.S.1959/365; O.S. 1968/1281 a 1971/342 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

### Achredu sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon

**5.** Bydd i unrhyw achrediad at ddibenion paragraff 3 o Atodlen 3 i Reoliadau 1993 sydd mewn grym yn union cyn 1 Medi 1999 effaith fel petai wedi'i roi at ddibenion paragraff 2 o Atodlen 3.

### Penderfyniadau prawf gan y Cynulliad

**6.**—(1) Yn achos person, a oedd ar 1 Medi 1992 wedi cychwyn ond heb gwblhau cyfnod prawf o dan reoliad 14 o Reoliadau 1989, ac Atodlen 6 iddynt, bydd rheoliad 14 ac Atodlen 6 yn parhau i gael effaith tan y cydymffurfir â'u holl ddarpariaethau.

(2) Ni chaiff athro —

(a) y dyfarnwyd ei fod yn anaddas i gael ei gyflogi ymhellach fel athro cymwysedig yn unol â pharagraff 2(c) o Atodlen 2 i Reoliadau 1959; neu

(b) a gafodd rybudd ysgrifenedig o dan baragraff 5(2) o Atodlen 6 i Reoliadau 1982,

ei gyflogi fel athro mewn ysgol heb ganiatâd y Cynulliad.

### Athrawon trwyddedig, athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor ac athrawon cofrestredig

**7.** Bydd Rheoliadau 1993 yn parhau i fod yn gymwys fel petai Rheoliadau Addysg (Athrawon) (Diwygio) (Rhif 2) 1997(**2**) a'r Rheoliadau hyn heb gael eu gwneud at ddibenion —

(a) caniatáu cyflogi fel athro mewn ysgol athro anghymwysedig a oedd yn athro trwyddedig neu'n athro a hyfforddwyd dros y môr fel y'u diffiniwyd ynddynt ar 30 Tachwedd 1997, a bydd y dyletswyddau a osodwyd ar y personau mewn cysylltiad â hynny yn parhau i fod yn gymwys; a

(b) penderfynu a oedd person, a oedd ar 30 Tachwedd 1997 neu unrhyw bryd cyn hynny yn athro trwyddedig, athro a hyfforddwyd dros y môr neu'n athro cofrestredig fel y'u diffiniwyd ynddynt, yn athro cymwysedig.

**8.** Lle cyflawnwyd swyddogaeth a roddwyd gan y Rheoliadau hyn i'r Cynulliad cyn 1 Gorffennaf 1999 gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Rheoliadau 1982, bydd Rheoliadau 1989 neu Reoliadau 1993, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at gyflawni'r swyddogaeth honno gan y Cynulliad yn cynnwys, ynglŷn ag unrhyw amser cyn 1 Gorffennaf 1999, yn cynnwys cyfeiriad at ei gyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) O.S. 1997/2679.